



**Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy**  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

## CYDBWYLLGOR

### ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd: 23 Mehefin 2023**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon**

**Teitl: Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon y Cydbwyllgor ar gyfer 2022/23 a Chyllideb ddrafft 2023/24**

---

#### 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ynghylch sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r AHNE fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2023 yn ogystal â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24.

#### 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Diben yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr AHNE fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2023 a cheisio cymeradwyaeth i'r gyllideb ar gyfer 2023/24.

#### 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r aelodau nodi'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1) a Balansau'r Gronfa wrth Gefn ar 31 Mawrth 2023 (Atodiad 4). Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo cyllideb ddrafft 2023/24 (Atodiad 2) yn ffurfiol ac adolygu'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 (Atodiad 3) a'i lofnodi.

#### 4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r AHNE ar gyfer 2022/23 y manylir yn ei chylch yn Atodiad 1. Y sefyllfa derfynol oedd bod tanwariant cyffredinol o £40,259, sydd wedi'i drosglwyddo i'r gronfa refeniw wrth gefn.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys copi o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer cyrff llywodraeth leol llai yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (Atodiad 3) i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllid a'n cyd-flaenoriaethau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn egluro sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2022/23 a 2023/24.

Mae cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (Atodiad 3) a'i lofnodi yn ofyniad statudol cyn i Archwilio Cymru archwilio'r cyfrifon.

Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Gyfoeth Naturiol Cymru tan 31/03/2024.

Ar 31 Mawrth 2023, balans Cronfa Wrth Gefn yr AHNE (atodiad 4) oedd £943,286. Mae £873,194 o hynny wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau penodol a ddaw yn eu blaenau ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r £70,092 sy'n weddill ar gael i gynnal cyllideb refeniw 2023/24, a disgwylir y bydd angen £15,515 ohono yn 2023/24.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae cyllideb yr AHNE yn dibynnu ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Mae risg na fydd digon o gyllid i dalu costau'r AHNE mewn blynyddoedd a ddaw oni chanfyddir adnoddau ychwanegol, gan beri risg i ddarparu prosiectau yn y dyfodol a'r gallu i gyflawni'r blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad.**

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.